# ELIAS, WILLIAM (1708 - 1787),

**Enw:** William Elias
**Dyddiad geni:** 1708
**Dyddiad marw:** 1787
**Priod:** Ann Elias (née Williams)
**Plentyn:** William Elias
**Rhiant:** Elias ap Richard
**Rhyw:** Gwryw
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth
**Awdur:** Garfield Hopkin Hughes

Plas-y-glyn, Llanfwrog, Môn. Yn ôl David Thomas ('Dafydd Ddu Eryri'), g r o Glynnog oedd - Elias ap Richard, Gefail Talhenbont, oedd ei dad, medd J. E. Griffith (*Pedigrees*). Dywedir mai crydd oedd ar ddechrau ei oes, ac y mae rhestr y tanysgrifwyr i'r *Diddanwch teuluaidd*, 1763, ac ambell nodyn yn y llawysgrifau (e.e. Wynnstay MS. 7, 105, 131, etc.) yn profi hynny. Bu wedyn yn ffermwr ac yn swyddog tir i deulu Wyn Glynllifon. Priododd Ann Williams 19 Ionawr 1730, fel y dengys llythyr sydd yn Wynnstay MS. 7 (251), ac enwir 10 o blant iddo yn yr achau, yn eu plith y ' William Elias Junior ' y mae ei enw yn Wynnstay MS. 7, ac yn y *Diddanwch teuluaidd* hefyd. Symudodd i Blas-y-glyn yn 1774, ac yno y bu farw yn 1787, a'i gladdu yn Llanfwrog, 2 Gorffennaf, yn 79 mlwydd oed. Canwyd marwnadau iddo gan Dafydd Ellis, Caergybi, a ' Twm o'r Nant.' Bu'n ddisgybl i Owen Gruffydd - aeth rhai o lawysgrifau hwnnw, fel Llyfr Madryn (N.L.W. MS. 799), i'w feddiant - a'i gywydd marwnad i'w athro, 6 Rhagfyr 1730, yw ei brif gerdd. Y mae nifer o'i benillion a'i englynion mewn llawysgrifau a fu'n eiddo iddo - e.e. N.L.W. MSS. 799, 7892; Wynnstay MSS. 6 a 7. Bu'n gyfeillgar â Michael Prichard, a bu gohebiaeth rhyngddo a Goronwy Owen.

## Awdur

**Garfield Hopkin Hughes**, (1912 - 1969)

## Ffynonellau


*Llawysgrif Cwrtmawr yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru* 554 - casgliadau J. Jones ('Myrddin Fardd') yngl n â William Elias, yn cynnwys marwnad ' Twm o'r Nant ' iddo

N.L.W. *Llawysgrif Mysevin yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth* 1 (452) - nodyn 'Dafydd Ddu'

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 253

*The Letters of Goronwy Owen (1723–69)* (Cardiff 1924), 203-4


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734603

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu